

CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 6ed o Orffennaf, 2023
Teitl yr Eitem: Absenoldeb Aelod o'r Cyngor
Swyddog Cyswilt: Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Eirwyn Williams o gyfarfodydd y Cyngor am gyfnod o 6 mis o ddyddiad y cyfarfod hwn oherwydd amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei alluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.

2. CEFNDIR A RHESYMEG

CEFNDIR

- Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os yw aelod o awdurdod lleol yn methu mynychu unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis yn olynol o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, yna ni fyddant yn aelod o'r awdurdod mwyach.
- Yr unig eithriad i hyn yw os y cymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

SEFYLLFA PRESENNOL CYNGHORYDD YNG NGHYNGOR GWYNEDD

- Mae'r Cynghorydd Eirwyn Williams yn wael ar hyn o bryd ac felly mae hyn yn effeithio ar ei allu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod.
- Mae gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Eirwyn Williams o gyfarfodydd yr awdurdod er mwyn ei alluogi i barhau i fod yn aelod yn unol â'i ddymuniad.
- Os na roddir cymeradwyaeth i'r absenoldeb, yna byddai cyfnod y Cynghorydd Eirwyn Williams fel aelod o'r Cyngor yn dod i ben 6 mis ar ôl ei bresenoldeb diwethaf mewn cyfarfod o'r Cyngor.
- Awgrymir, o dan yr amgylchiadau, y dylid cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Eirwyn Williams.

3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Rwyf wedi cynorthwyo gyda paratoi yr adroddiad yma . Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.